**LC458**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dadansoddiadau Awdurdodau Cyfan a Chynlluniau Gwella) (Cymru) 2002**

Mae hwn yn diddymu Gorchymyn Llywodraeth Leol (Gwerth Gorau) (Adolygiadau a Chynlluniau Perfformiad) (Cymru) 2000, ac mae'n cynnwys darpariaethau disodli mewn perthynas â'r cyfnodau y mae'n rhaid cynnal adolygiadau gwerth gorau o'u mewn, y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid cyhoeddi'r cynlluniau perfformiad gwerth gorau a'r dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid i adroddiad yr archwiliwr ar y cynllun perfformiad gael ei anfon i'r cyrff y cyfeirir atynt yn adran 7(5) o'r Ddeddf alluogi.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Erthygl 1(2)**

Nid yw'n amlwg ar yr olwg gyntaf pam fod y Gorchymyn hwn, mewn cyferbyniad â'r gorchymyn a ddiddymwyd, yn cyflwyno amodau gwahanol ar gyfer materion y cyfeirir atynt yn y Ddeddf fel cynlluniau perfformiad gwerth gorau ac adolygiadau gwerth gorau.

**Erthygl 5**

Yn y testun Saesneg dylai "Review" fod yn "Reviews".

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

23 Ebrill 2002